# Prosbectws Ysgol Gorslas

*Gweithio gyda'n gilydd, dysgu gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd*


Ysgol Gynradd Gorslas
Heol Yr Eglwys,
Gorslas
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 7NF

Rhif ffôn: 01269 842929






Ebost : Angharad.Vaughan-Owen@gorslas.ysgolccc.cymru
Gwefan : Ysgol Gynradd Gorslas - Adref/Home (ysgolgorslas.co.uk)


**Pennaeth**: Mrs Angharad Vaughan-Owen

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**: Mrs Shân Thomas

Ysgol Gynradd Gymraeg i ddisgyblion o 4 - 11 mlwydd oed

## Cynnwys


**Rhagair y Pennaeth**

**Croeso i'n hysgol**

**Strwythur a threfniant yr ysgol**

**Staff Ysgol Gorslas**

**Llywodraethwyr**

**Dechrau Ysgol**

**Gwisg Swyddogol yr Ysgol**

**Trefn y Dydd**

**Nod ac Amcanion yr Ysgol**

**Polisi Iaith yr Ysgol**

**Y Cwricwlwm**

**Iechyd a Diogelwch**
**(Gofal ac Iechyd, Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant, Plant Mewn Gofal, Cymorth Cyntaf Diogelwch yn yr Ysgol, Ymweliadau addysgiadol, Chwaraeon)**

**Ymddygiad Positif**

**Gweithgareddau Allgyrsiol**
**(Cyngor Ysgol, Ysgol Eco, Ysgol Iach, Rhestr Gweithgareddau Allgyrsiol, Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.)**

**Asesu ac Adrodd yn ôl**

**Cwynion**

**Polisïau yr Ysgol a'r Addysg Lleol**


**Rydym yn gobeithio fod y gwybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn sail i bartneriaeth cryf rhwng y cartref a'r ysgol.**

**Cysylltwch â'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiwn neu sylw.**

## Croeso i'n hysgol



Mae'n bleser i ni groesawu eich plentyn i ysgol Gorslas. Mawr obeithiwn y byddant yn hapus yma. Rydym yn awyddus i'ch cynorthwyo yn ystod taith eich plentyn trwy ein hysgol hapus. Mae perthynas gyfathrebol dda rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol i feithrin y syniad o bartneriaeth rhwng rhiant ac athro, i sicrhau yr awyrgylch orau bosib.




Mae Ysgol Gorslas yn amgylchedd hapus a sefydlog ble mae'r plant yn cael cyfleoedd gwych i flasu amrywiaeth o brofiadau, a datblygu'r medrau, sgiliau a'r gwybodaeth angenrheidiol i fod yn aelodau gofalus a defnyddiol o'n cymdeithas gyfnewidiol.
Cofiwch ein bod ar gael i gwrdd a thrafod gyda chi unrhyw bryd.
Rydym yn eich croesawu i gysylltu â'r pennaeth am gydag unrhyw fater neu ymholiad nail ai drwy'r swyddfa, e bost neu ffôn.
Mae'n amser cyffrous i chi a'ch plentyn, rydym yma i fwynhau a'i rannu gyda chi.

Cafodd yr ysgol ei harolygu gan Estyn yn nhymor yr Haf 2022-

***Mae Ysgol Gynradd Gorslas yn gymuned hapus a chynhwysol sydd yn rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i adnabod anghenion pob unigolyn o fewn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo fod ganddynt berthnasoedd cadarn i drafod unrhyw bryderon mewn amgylchedd diogel.***

***Mae bron pob disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn mwynhau cwmni ffrindiau ac oedolion mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff, yn gwybod ble i droi os oes angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryder.***

***Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae pwyslais cryf ar adnabod y plentyn fel unigolyn cyflawn yn ogystal â dod i adnabod eu teuluoedd. Caiff hyn ddylanwad cadarn wrth i staff yr ysgol gydweithio'n lwyddiannus gyda'i chymuned. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n bwrpasol at ethos gofalgar yr ysgol.***

*Angharad Vaughan-Owen*
*Pennaeth*

**Ysgol Gorslas**
**Rhif ar y gofrestr -215**

**Strwythur a threfniant yr ysgol**

**Lleoliad yr ysgol**
Mae ysgol Gorslas yn ysgol wledig i blant (bechgyn a merched) rhwng 4 i 11 mlwydd oed. Mae'r plant wedi eu dosbarthu o ran oed mewn dosbarth blwyddyn. Maent yn cael eu dysgu fel dosbarth cyfan, mewn grwpiau bach ac yn unigol. Mae hwn yn dibynnu ar y weithgaredd ac anghenion y plant.
Lleolir Ysgol Gynradd Gorslas yng nghanol cymuned brysur ac ehangol a saif ar Heol yr Eglwys Gorslas. Adeiladwyd yr Ysgol yn 2022 ac fe symudon i fewn i'n hysgol newydd Medi 2022.

## Staff Ysgol Gorslas

### Staff Addysgu

**Pennaeth:** Mrs Angharad Vaughan-Owen

**Dirprwy:** Mrs Angharad Price – Arweinydd Dysgu Sylfaen

**Athrawon:**
Mr Alun Roberts - Arweinydd Blynyddoedd 3 - 6
Mrs Diane Thomas
Miss Louise Davies
Mrs Hannah Davies
Mrs Sarah Haynes
Miss Angharad Richards
Mr Christian Evans

**Cynorthwywyr Dosbarth**:

Mrs A Collins HLTA
Mrs C Jones HLTA
Mrs A Davies
Mrs M Jones
Mrs A Griffiths
Miss E Collins
Mrs E Davies
Mr A Jones
**Staff Cynorthwyol:**
**Gweinyddes:** Miss Vanessa Masters
**Gofalwr:** Mrs G Mack
**Glanhauwraig:** Mrs Dawn Norrie
**Cogyddes:** Mrs Carol Thomas
**Cogyddes Gynorthwyol:** Mrs. J Evans
**Goruchwylwyr Amser cinio:** Mrs Carol Jones, Ms Julie Dyce, Ms E Davies
Mrs Maree Jones, Miss Elinor Collins, Mrs Alison Collins

**Athrawon Peripatetig Offerynnol:**

Mrs A Williams – Llinynnau
Mr G Thomas – Prês
Mr M Jennings - Chwythbrennau/recorder

## Llywodraethwyr yr Ysgol.

| | |
|---|---|
| **Rhieni:** | Mr D Hughes<br>Mrs J Rees<br>Mrs S Ward-Bennett |
| **Cynrychiolydd Cymunedol:** | Mrs S E Thomas Cadeiryddes<br>Miss M Gronow<br>Mrs E Goldsmith<br>Mrs M Walters |
| **A.A Ll:** | Mr M Jenkins<br>Mr C Davies<br>Mrs G Lewis |
| **Staff:** | Mrs A Collins |
| **Athrawon:** | Mrs A Price |
| **Pennaeth:** | Mrs A Vaughan-Owen |
| **Clerc i'r Llywodraethwyr:** | Mrs S Mc Donald |

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) gydag is bwyllgorau yn cyfarfod rhwng ac ar ôl cyfarfodydd Y Corff. Cyhoeddir adroddiad blynyddol gan y Llywodraethwyr, ac mae copïau ar gael o swyddfa'r ysgol. Cynhelir cyfarfod blynyddol yn yr ysgol a fydd yn rhoi cyfle i'r rhieni ymateb i'r adroddiad.

## Dechrau Ysgol

Derbynnir plentyn ar ddechrau'r tymor ar ôl dathlu ei bedwaredd penblwydd.  Croesewir y rhieni i ymweld â'r ysgol mewn prynhawn tê er mwyn iddynt ddod i adnabod yr athrawon ac i drafod unrhyw faterion sy'n codi.  Paratoir pecyn o wybodaeth am yr ysgol i bob rhiant newydd.  Polisi drws agored sydd gennym ac mae croeso i unrhyw riant gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod problem.


Disgwylir i rieni arwyddo cytundeb partneriaeth â'r ysgol sy'n amlinellu disgwyliadau er mwyn hybu datblygiad addysgol effeithiol y plentyn.  Mae copi o'r cytundeb ar gael yn swyddfa'r ysgol.

Meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion:

- plant sy'n byw yn nalgylch traddodiadol yr ysgol;
- plant â brodyr a chwiorydd sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn a gofynnwyd amdano;
- plant yr argymhellwyd eu bod yn cael lle am resymau eraill (mewn cytundeb â'r A.A.Ll.)
- rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw nesaf i'r ysgol fel y mesurir ar hyd y ffordd gyhoeddus.

Ni roddir blaenoriaeth yn ôl y dyddiad y derbyniwyd ceisiadau nac yn ôl dyddiad geni.

Mae'r Ysgol yn cael derbyn 30 o ddysgwyr i bob blwyddyn academaidd.



| | | |
|---|---|---|
| Tymor yr Hydref : | 1af Medi | - 31ain Rhagfyr |
| Tymor y Gwanwyn : | 1af Ionawr | - 31ain Mawrth |
| Tymor yr Haf : | 1af Ebrill | - 31ain Awst |



Rhaid i bob riant sy'n dymuno gwneud cais am le yn yr ysgol ar gyfer plentyn, beth bynnag ei oed, wneud hynny trwy gofrestru ar wefan Sir Gar :

www.sirgar.gov.uk/derbyniadauysgol

Y Sir sydd yn penderfynu pwy fydd yn cael eu dewis gan ddefnyddio canllawiau penodol.  Ceir mwy o fanylion ar wefan y sir.

## Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Mae'r plant yn ymadael â'r ysgol hon yn ystod mis Gorffennaf yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 mlwydd oed er mwyn mynychu Ysgol Gyfun leol - fel arfer Ysgol Maes Y Gwendraeth.  Fe fynycha'r Pennaeth ac athrawes Blwyddyn 5 a 6 gyfarfodydd cyswllt rheolaidd a gynhelir yn Ysgol Maes Y Gwendraeth lle trafodir ystod eang o faterion perthnasol. Mae cyfleoedd yn codi pan fo plant Ysgol Gorslas yn medru manteisio ar adnoddau'r Ysgol Uwchradd hefyd.

# Gwisg Ysgol/School Uniform

Neges i'ch atgoffa o'n polisi gwisg ysgol.
A reminder of our school uniform policy.

**Siwmper glas tywyll**

**Crys polo glas golau**

**Sgert, ffroc pinaffor neu trowsus llwyd neu glas tywyll.**

**Esgidiau du.**

**Navy blue jumper**

**Light blue polo shirt**

**Navy or grey skirt, pinafore dress or trousers.**

**Black shoes**

**Gellir prynu'r eitemau hyn yn Dyfed Menswear ac Eirllin (ar-lein). Gellir prynu sgert/trowsus ayyb mewn archfarchnadoedd megis Tesco/Asda am bris rhesymol. Mae gennym stondin o ddillad ysgol am ddim yn y brif fynedfa, gallwch gasglu'r dillad yma heb ofyn.**

**Cofiwch labelu pob dilledyn gydag enw eich plentyn.**

**These items can be purchased at Dyfed Menswear and Eirllin (online). Skirts/trousers etc can be purchased at a reasonable price in supermarkets such as Tesco/Asda. We have a rail full of free uniform in the front entrance. You can collect these at your convenience and do not need to ask.**



**Remember to label all clothing with your child's name.**



**Diolch yn fawr am eich cydweithrediad/
Thank you for your cooperation!**

## Gwisg Addysg Gorfforol

Pan fydd plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd addysg gorfforol mae gofyn iddo / iddi ddiosg unrhyw eitem a all fod o beryg iddynt hwy neu i eraill yn ystod y gweithgaredd hwnnw e.e. oriawr. Awgrymwn fod plentyn sy'n cael clustdlysau newydd yn eu gosod ar ddechrau gwyliau'r haf ac felly pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol bydd yr eitem yn medru cael ei diosg.

Yn ystod amserau chwarae anffurfiol h.y. egwyl y bore / canol dydd /prynhawn, gall damweiniau ddigwydd oherwydd fod plant yn gwisgo gemwaith. Awgrymwn yn gryf, o ran diogelwch i'r unigolyn ac i eraill, fod pob plentyn yn diosg unrhyw gemwaith cyn dod i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddamwain i dlysau neu eitemau gwerthfawr mae'r disgyblion yn dod ag i'r ysgol.

## Trefn y Dydd

| | | |
|---|---|---|
| Bore: | Dysgu Sylfaen | 9:00 - 11:45yb |
| | Bl 3 – 6 | 9.00 - 12.00yp |
| Prynhawn: | Dysgu Sylfaen | 1:00 – 3.20yp |
| | Bl 3 – 6 | 1:00 - 3:30yp |

Mae'r ysgol yn agor i'r disgyblion am 8.45 yb ac yn dechrau yn brydlon am 9:00 yb.

**Disgwylir i rieni arwyddo plentyn sy'n hwyr i mewn ar ein system 'Halo' gan nodi rheswm am yr hwyrni gan fod yr ysgol yn tracio prydlondeb.**
Mae hwyrni yn tarfu ar y dosbarth ac ar waith unigol y dysgwr. Bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn cael eu hysbysu o hwyrni aml.

Fe'ch atgoffwn chi nad yw hi'n bolisi i dderbyn plant cyn 8:45 y.b. Ni fydd yr Ysgol na'r Swyddfa Addysg yn gyfrifol am lles a diogelwch plant cyn yr amser hyn. Os ydy plant yn cyrraedd ysgol cyn yr amser hyn mae'n hanfodol bod rhieni yn eu trosglwyddo yn ddiogel i'r Clwb Brecwast.

## Clwb Brecwast

Rydym yn darparu amgylchedd diogel i ddysgwyr, ynghyd â brecwast maethlon. Mae'r clwb brecwast ar gael o 8:05 y bore tan 8:30 y bore. Mae'n hanfodol i ddisgyblion fynychu'r Clwb Brecwast os ydynt yn cyrraedd yr ysgol cyn 8:30 y.b.

## Cludiant i'r Ysgol

Cyfrifoldeb y rhieni yw darparu cludiant i'r plant hynny sy'n mynychu'r ysgol hon.

## Trosglwyddo disgyblion ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd

**Dosbarth Derbyn** - Disgwylir i rieni drosglwyddo'u plant i aelod o staff ar ddechrau'r dydd a'u codi yn yr un modd ar ddiwedd y dydd. Bydd aelodau staff y Clwb Brecwast a Chlwb ar ôl Ysgol yn eu trosglwyddo a'u casglu yn yr un modd.
**Dysgwyr Dysgu Sylfaen-** Disgwylir i rieni drosglwyddo'u plant wrth y fynedfa ar ddechrau'r dydd a'u codi yn yr un modd ar ddiwedd y dydd. Bydd y disgyblion sy'n mynychu'r Clwb Brecwast yn cael eu hebrwng i'r ysgol gan staff y clwb, ac ar ddiwedd y dydd, yn cerdded i'r Clwb Heini ar ôl ysgol yn y neuadd lle byddant yn cael eu cofrestru. Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn gwybod yn y bore os ydyn nhw i fod i fynychu'r clwb heini gyda'r nos.
**Bl 3 - 6 -** Bydd y disgyblion yn cyrraedd drwy'r brif fynedfa ar ddechrau'r dydd ac yn cael eu trosglwyddo oddi yno ar ddiwedd y dydd. Bydd y sawl sy'n mynychu'r Clwb Heini yn mynd yn syth i'r neuadd ar ddiwedd y dydd. Mae'n bwysig bod y disgyblion yn gwybod yn y bore os ydyn nhw i fod i fynychu'r clwb heini gyda'r nos.

## Casglu'r Plant

Gofynnir i rieni aros tu fewn i gât yr ysgol wrth aros am eu plant. Hefyd, os gwneir trefniadau gan riant i rywun arall, anadnabyddus, ddod i gasglu'r plant, fe werthfawrogwn wybod am hyn rhag ofn i weithwyr yr ysgol dybio mae dieithryn sydd yn hebrwng plentyn. Ni anfonir unrhyw blentyn oddi ar dir yr ysgol nes ceir sicrwydd bod yna oedolyn cyfrifol i'w derbyn a'i warchod. Dylid anfon gwybodaeth i'r ysgol ynglŷn â threfniadau casglu eich plentyn os ydy dau riant yn gweithio.

### Clwb Gofal Heini

Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yma yn rhoi cyfle i'r plant gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau. Darperir byrbrydau iachus cyn i'r disgyblion fynd adref. Rhedir y clwb yma gan gwmni 'Clwb Heini'. Codir tâl o £7 am y ddarpariaeth hon sy'n rhedeg o 3:30-5:25, Dydd Llun-Iau.

## Presenoldeb / Prydlondeb

**Presenoldeb 2022-23= 93%**
**Targed am 2023-2024= 95%**

**Mae'n ofynnol i rieni sicrhau hysbysu'r ysgol trwy alwad ffôn ar y bore cyntaf mae plentyn yn absennol o'r ysgol.**
Mae'n ofynnol i rieni hysbysu'r ysgol am unrhyw absenoldeb mewn llythyr neu e- bost pan mae disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Os na wneir hynny bydd eich plentyn yn cael ei ddynodi fel 'absennol heb ei ganiatáu'. Mae'r gofrestr yn cael ei gau am 9:20 y.b. Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn cyrraedd wedi'r amser hwn heb reswm meddygol yn cael ei ddynodi fel 'hwyr wedi i'r gofrestr gau' ac yn cael ei drin fel absenoldeb bore ar ystadegau'r ysgol. Disgwylir i rieni arwyddo i-pad yn y derbynfa pan fo'u plentyn yn cyrraedd yn hwyr. Anogir rieni i wneud apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol y tu allan i oriau ysgol, rhag tarfu ar addysg eu plentyn.

## Trefniadau cau'r ysgol mewn argyfwng

O bryd i'w gilydd mae angen cau'r ysgol ar fyr rybudd e.e. pan fydd hi'n bwrw eira, piben ddŵr wedi torri. Gwneir pob ymdrech i hysbysu rhieni cyn gynted â phosib naill ai trwy neges destun, e-bost, ourschoolsapp, ar wefan yr ysgol neu'r Cyngor Sir neu drwy gyhoeddi ar Radio Cymru neu Radio Sir Gâr. Eich cyfrifoldeb chi fel rhieni yw hysbysu'r ysgol os bydd newid i rifau ffôn cyswllt.

## Polisi Codi Tâl

Ni chodir tâl am weithgareddau ysgol heblaw am yr isod :

- Teithiau addysgol, lle gofynnir am gyfraniadau gan rieni.
- Gweithgareddau allgyrsiol a drefnir gan fudiadau allanol.

Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhiant / gwarcheidwad yn pryderu am gostau sy'n ymwneud â'r ysgol.

Rhaid talu unrhyw daliadau a wneir i'r ysgol am deithiau, ymweliadau neu ymweliadau preswyl drwy Parent Pay. Pan fyddwch yn dechrau yn yr ysgol byddwch yn cael rhif cyfrif a chyfrinair ar gyfer cyfrif Parent Pay eich plentyn.

## Cytundeb Cartref / Ysgol

Disgwylir i rieni a'r ysgol gytuno a llofnodi cytundeb cartref / ysgol er mwyn cyd-weithio er budd y disgyblion.

## Trefniadau amser Cinio

Fe baratoir cinio ysgol yng nghegin yr ysgol bob dydd. Mae'r fwydlen ar gael i bawb ac fe arddangosir yn y dderbynfa neu ar Parent Pay. Ar hyn o bryd, darperir prydau ysgol am ddim i bob plentyn i fyny at flwyddyn 4. Gofynnir i rieni hysbysebu'r ysgol drwy lythyr am unrhyw alergedd neu anghenion dietegol arbennig sydd gan eu plant.

Mae cinio rhad i'w gael i'r rheini sy'n deilwng. Dylid gwneud cais i'r awdurdod lleol drwy'r ddolen isod:
[Prydau Ysgol am Ddim a Phrydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd (llyw.cymru)]

Ni chanieteir i blentyn gael cinio rhad heb ganiatâd oddi wrth yr awdurdod lleol. Dylid wneud cais o leiaf chwe wythnos cyn dyddiad darfod cinio ysgol rhad.

Gwneir trefniadau i blant sy'n dewis dod â bwyd eu hunain i'w fwyta yn y neuadd hefyd o dan oruchwyliaeth. Mae gennym dîm o oruchwyliwr sy'n gweinyddu yn ystod amser cinio. Rydym yn Ysgol Iach ac yn annog bocs bwyd iachus. Fel y soniwyd yn gynharach, rydym yn Ysgol Iach ac yn cydymffurfio i'r cynllun. Felly, gofynnwn i chi rieni/warchodwyr i baratoi pecyn bwyd iach i'ch plentyn/plant. Ni fydd yr ysgol yn caniatáu diodydd fizzy na chwaith losin ym mhecyn bwyd eich plentyn, sydd wedi cael ei uwch oleuo ym mholisi bwyd a ffitrwydd yr ysgol. Am fwy o fanylion neu syniadau ar becyn bwyd iachus dyma linc ar arweiniad pellach o ddogfen Llywodraeth Cymru 2019:
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/healthy-lunchboxes-leaflet.pdf
Am fanylion neu arweiniad pellach, ewch i wefan yr ysgol neu'r ddau linc yma:-
https://www.foodafactoflife.org.uk/whole-school/whole-school-approach/healthy-lunchboxes/
https://www.nhs.uk/change4life/recipes/healthier-lunchboxes

## Byrbryd Amser Chwarae

Rydym yn Ysgol Iach ac yn ystod amser chwarae boreol, rydym yn annog y plant i fwyta byrbrydau iachus megis iogwrt, ffrwyth neu llysieuyn. Ni fyddwn yn caniatáu byrbrydau/snaciau neu diodydd afiach e.e. creision, losin, siocled, 'doughnuts' neu 'fruitshoot' ar dir yr ysgol gan ein bod yn cydymffurfio gyda egwyddorion Ysgolion Iach y Sir a'r ddogfen statudol gan Lywodraeth Cymru ar fwyta'n iach (2014). Mae croeso i chi ddarllen ein polisi ar fwyd a ffitrwydd neu cewch drefnu apwyntiad i siarad gyda'r Pennaeth, Mrs A Vaughan-Owen neu Mrs Shan Thomas, y llywodraethwr sydd yn gyfrifol am fwyta'n iach yn yr ysgol.
Er mwyn cadw pecyn bwyd eich plentyn yn ffres, gofynnwn yn garedig i chi ddefnyddio pecyn bwyd thermol gyda phecyn iâ wedi ei gynnwys yn y pecyn. Rydym yn ysgol di-gnau felly ni chaniateir unrhyw fyrbryd neu phecyn bwyd sy'n cynnwys cnau.

## Llysoedd

Wrth i'ch plentyn gychwyn gyda ni yn yr ysgol fe'i lleolir yn un o bedwar llys – Owain, Lleian, Beca a Gwendraeth. Bydd yn aros yn yr un llys trwy gydol ei gyfnod yn yr ysgol, a cheisir sicrhau bod holl blant yr un teulu yn perthyn i'r un llys. Gwneir defnydd o'r llysoedd yn ystod y flwyddyn e.e. ar ddiwrnod y mabolgampau, ynghyd ag Eisteddfod Dydd Gwyl Dewi.

## Addoli ar y Cyd

Mae'r ysgol gyfan yn cwrdd yn feunyddiol i gynnal gwasanaeth. Anogir y plant i gyfrannu yn ystod y gwasanaethau hyn. Gwahoddir ymwelwyr i ddod i addoli gyda ni o bryd i'w gilydd. Cynhelir gwasanaeth gwobrwyo bob dydd Gwener gan y pennaeth lle gwobrwyir unigolion am eu llwyddiannau yn ystod yr wythnos.

## Nod ac Amcanion yr Ysgol

**Yn Ysgol Gorslas ein bwriad yw creu cymuned ysgol sy'n:**

- sicrhau bod pob disgybl yn gartrefol mewn awyrgylch Cymraeg a Chymreig.
- symbylu pob disgybl i ddatblygu hyd eithaf ei allu, yn academaidd ac yn ddiwylliannol, yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol.
- annog pob disgybl i feithrin a meistroli'r grefft o gyfathrebu drwy'r iaith Gymraeg a'r Saesneg sef dwyieithrwydd.
- gwerthfawrogi gwerthoedd moesol ein cenedl a'r byd, a chreu ymwybyddiaeth o anghenion plant a phobl eraill.
- sicrhau bod gan bob disgybl gyfraniad gwerthfawr i'w wneud mewn cymdeithas fyw ac iach.
- creu ymwybyddiaeth ac awydd am ddimensiwn ysbrydol bywyd, parch at werthoedd crefyddol, a goddefgarwch at hiliau a chrefyddau eraill.
- datblygu'r medrau sylfaenol ym mhob agwedd ar y cwrs addysg gan gofio oed, dawn a gallu'r disgybl.

- datblygu medrau a deallusrwydd mathemategol, gwyddonol a thechnegol trwy brofiadau perthnasol sy'n adlewyrchu'r newidiadau o fewn ein byd.
- datblygu hunanfynegiant trwy gerddoriaeth, meim, drama, celf ac addysg gorfforol.
- creu ymwybyddiaeth o'r angen am lendid personol, moesgarwch a chwrteisi.
- hybu arferion diogelwch yn yr ysgol, y cartref a'r gymdeithas.
- creu cysylltiad agos rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn i rieni ac athrawon weithio gyda'i gilydd er lles pob disgybl.
- creu'r fath awyrgylch a naws lle mae pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael boddhad.
- meithrin athrawon ymroddgar a brwdfrydig.
- rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd eithaf ei allu ymhob agwedd o'r cwricwlwm.
- cyflwyno'r addysg sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i brofiad y disgybl yn y gymuned.
- meithrin parch at eiddo ac at bersonau eraill.
- hybu cysylltiad a chydweithrediad rhieni.
- datblygu meddyliau gofynnol ac bywiog, gyda'r gallu i holi a thrafod yn rhesymol ac i ymateb i tasgau.
- datblygu sgiliau iaith i'r eitha, defnyddio'n bwrpasol ac ystyriol i gyfathrebu, yn cynnwys gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu a gwerthfawrogi llenyddiaeth.

## Cyfle Cyfartal

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob plentyn yn yr ysgol ac fe welir manylion am hyn yn y polisi sydd ar gael yn swyddfa'r ysgol. Rydym yn barod i dderbyn unrhyw wybodaeth newydd perthnasol i sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

## Polisi Iaith yr Ysgol

Ysgol Categori 3 yw Ysgol Gorslas, felly cyfrwng iaith yr ysgol yw Cymraeg ac mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwbl ddwy-ieitheg erbyn iddynt adael yr ysgol yn 11 oed.

Defnyddir Cymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Dysgu Sylfaen (3+ hyd 7oed ). Cyflwynir Saesneg yn ystod Cyfnod Allweddol 2 (7+ hyd 11+) addysgir y plant trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ar gyfer y plant hynny a ddaw i mewn i'r ysgol heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg, dyma a fydd y drefn:

<u>Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2</u>. Gwneir y plant i deimlo'n gartrefol a sefydlog yn y dosbarth trwy gyfrwng y Saesneg, h.y. cyflwynir cyfarwyddiadau unigol i'r plentyn yn Saesneg. Cyn gynted ag y bydd y plentyn yn gartrefol yn ei amgylchedd newydd yna cyflwynir y Gymraeg iddo/iddi trwy weithgareddau ymarferol sy'n cynnwys llawer iawn o waith llafar. Addysgir y plentyn i ddarllen, i ysgrifennu ac i siarad yn y Gymraeg. Bydd yr athrawes ddosbarth yn ymwybodol o ddefnydd y plentyn o'r Saesneg yn ystod y cyfnod hwn.

<u>Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6.</u> Ar gyfer y plant hynny a ddaw i mewn i'r ysgol heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg ceir cyfnod o ymgartrefu. Ar y cychwyn addysgir y plentyn trwy gyfrwng y Saesneg, ond cyflwynir y Gymraeg cyn gynted â phosibl, trwy weithgareddau llafar ac ymarferol.

Ceir gyfle i hwyrddyfodwyr i'r ysgol o flynyddoedd 3 – 6 fynychu Canolfan Gwên sef canolfan iaith Gymraeg yn Ysgol Maes y Gwendraeth.

## Urdd

Rhoddir cryn bwysigrwydd ar weithgareddau'r Urdd yn Ysgol Gorslas. Mae gweithgareddau o'r math yn hybu'r diwylliant Cymraeg ac yn gwneud y plant yn fwy ymwybodol o'u cefndir a'u gwreiddiau. Maent hefyd yn cael cyfle drwy'r mudiad i gwrdd â ffrindiau o bob rhan o Gymru. Cystadlwn yn frwd ymhob math o gystadlaethau yr Urdd bob blwyddyn. Gellir ymaelodi plenty I'r Urdd yn nhymor yr Hydref bob blwyddyn drwy gwefan yr Urdd. Mae ymaelodi yn galluogi'r plentyn i gystadlu yng nghystadlaethau swyddogol yr Urdd yn ogystal â mynychu teithiau preswyl megis Llangrannog.

## Y Cwricwlwm

Mae Ysgol Gorslas yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys mewn amgylchedd hapus, iach a diogel. Trwy gyfoeth o brofiadau, rydym yn datblygu unigolion gwybodus ac uchelgeisiol gan feithrin gwerthoedd clir a chreu dinasyddion hyderus ac moesegol. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn gwneud eu gorau i gyflawni eu nod a chreu cyfranwyr mentrus a chreadigol.

Mae'n bwysig gwneud y plant yn ymwybodol o'u hamgylchedd, eu cymuned, eu gwlad a'r byd.

- Mae pedwar diben wrth wraidd cwricwlwm Ysgol Gorslas.
- sy'n rhoi'r cyfle i bob plentyn a person yn **ddysgwyr uchelgeisiol**, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi selio ar themâu, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm. Mae'r profiadau addysgiadol i ni'n cynnig yn rhan annatod o'n cwricwlwm, sy'n ehangu gorwelion ein plant, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

Y chwe maes dysgu a phrofiad yw:

• Y chwe Maes Dysgu a phrofiad yw:

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg (yn cynnwys cyfrifiadureg)
- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol)

**Nod ac Amcanion Cyffredinol yr Ysgol**

Dylai:

1. Bob plentyn deimlo'n hapus a diogel mewn awyrgylch gartrefol.
2. Roi cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd eithaf ei allu ymhob agwedd o'r cwricwlwm.
3. Gyflwyno'r addysg sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i brofiad y disgybl yn y gymuned.
4. Hybu a datblygu dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o Gymru a Chymreictod.
5. Gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl a magu parch tuag at amrywiaeth yr ysgol.
6. Hybu cysylltiad a chydweithrediad rheini.
7. Feithrin parch at eiddo ac at bersonau eraill.
8. Ysgogi cysylltiad â'r gymuned.
9. Bwysleisio ymddygiad, cwrteisi ac ymddangosiad.
10. Feithrin athrawon ymroddgar a brwdfrydig.

**Nod ac Amcanion y cwricwlwm**

Rhaid i'r cwricwlwm fod yn un sy'n:

a) 'hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion yr ysgol a chymdeithas.
b) Paratoi'r disgyblion hynny ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau, a phrofiadau bywyd oedolion.

Bwriedir i'r amcanion addysgol sylfaenol adlewyrchu datblygiad y plentyn drwy holl gwricwlwm yr ysgol.

1. Dylid helpu plant i feithrin meddyliau bywiog ac ymchwilgar, gan gynnwys y gallu i holi a dadlau yn rhesymegol ac ymateb i dasgau.
2. Creu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o gymdogaeth, iaith, diwylliant ac amgylchedd y plentyn a bod yn ymwybodol o gyfnodau a mannau eraill.
3. Datblygu iaith yn ei holl ffyrdd, er mwyn iddi fod yn ddull pwrpasol ac ystyriol o gyfathrebu, gan gynnwys gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu a gwerthfawrogi llên yn y famiaith a'r ail iaith.
4. Datblygu medrau a dealllusrwydd mathemategol.
5. Datblygu medrau a deallusrwydd gwyddonol a thechnegol mewn byd sy'n gyflym newid.
6. Datblygu hunan-fynegiant trwy gerddoriaeth, meim, drama, celf a dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.
7. Dysgu gofal wrth ddefnyddio offer a chyfarpar, e.e. Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Celf, Dylunio a Thechnoleg a.y.y.b.
8. Meithrin arferion hunan-ddisgyblaeth.
9. Creu ymwybyddiaeth o'r angen am lendid personol, moesgarwch a chwrteisi.
10. Hybu arferion diogelwch yn yr ysgol, y cartref a'r gymdeithas.

**Dysgu Sylfaen**

Fe osodir sylfaen bendant i sgiliau yn ystod y cyfnod hwn, gyda chwarae yn rhan pwysig o'r dydd. Y nod yw annog dysgu sut i rannu a chymryd tro, cyd-weithio, ehangu geirfa, dod ymlaen â'n gilydd a gwerthfawrogi bod byd ehangach o'n cwmpas. Hefyd fe werthfawrogir pa mor hynod bwysig yw'r profiad o chwarae ar amrywiaeth o deganau i ddatblygu y corff a'r sgiliau motor.

Mae'r gwaith yn seiliedig ar y chwe maes dysgu sy'n ffurfio cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy ddysgu trwy brofiad - dysgu trwy wneud a thrwy ddatrys problemau bywyd go iawn y tu mewn ac yn yr awyr agored. Y chwe maes dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Corfforol.
- Datblygiad Creadigol.

## Cyfnodau Allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol

Rhannwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol i 4 Cyfnod Allweddol : yn yr Ysgol hon rydym yn cyflwyno y ddau cyfnod allweddol hyn :

| | | |
|---|---|---|
| Dysgu Sylfaen | - | 4 i 7 mlwydd oed |
| Bl 3 – 6 | - | 7 i 11 blwydd oed |

Addysgir y Cwricwlwm Cenedlaethol yn bennaf trwy ddull Thema neu ddull Traws-Gwricwlaidd. Dewisir themâu ar gyfer yr ysgol gyfan ac fe'u cynllunir ar gyfer pob tymor. Cynhwysir elfennau o'r meysydd pynciau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r thema. Dim ond canllaw yw pob thema, nid oes yn rhaid i athro addysgu nodweddion ynglwm â'r thema bob amser.

## Lles

Dysgir pwysigrwydd gofalu amdanynt eu hunain yn ffurfiol fel rhan o raglen waith yr ysgol ac hefyd yn anffufiol drwy rhaglen Ysgolion Iach. Pwysleisir pwysigrwydd bwyta bwyd ac yfed diodydd iachus, gofalu am ddannedd a hylendid y ceg, y manteision o Ymarfer Corff cyson, peryglon ysmygu, chymryd cyffuriau a pherthynas iach. Mae cyfle i holl disgyblion yr ysgol brynu ffrwyth/llysiau neu dost amser egwyl. Anogir y plant i yfed dŵr yn rheolaidd.

## Llaeth

Mae pob plentyn yn y Dysgu Sylfaen yn cael cynnig llaeth yn rhad ac am ddim.

## Dogfennaeth

Mae gan yr ysgol llawer o ddogfennaeth e.e. polisiau. Mae croeso i bob rhiant weld y ddogfennaeth yma. Mae copi o'r prosbectws ar gael yn y dderbynfa. Mae'r wybodaeth yn cael ei adolygu yn aml.

## Polisi ysmygu

Gofynnir i bawb gydsynio â'r polisi er mwyn gosod esiampl dda ac iach i'r plant. Ni chaniateir ysmygu nac anweddu chwaith tu fewn i adeilad yr ysgol, ar dîr yr ysgol na chwaith o gwmpas cyffuniau'r ysgol**.** O'r 1af o Fawrth 2021, **rydym ni yn cefnogi** 'The Ash Wales Smoke Free School Gates Campaign' ac yn gofyn yn garedig i chi beidio ac ysmygu neu anweddu tu-allan i gât yr ysgol. Mae yna faner wedi cael ei gosod ar ein ffens yn sôn oddi wrth rieni a phobl y gymuned am y rheol yma.

.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ein nod fel ysgol yw darparu cyfleoedd i bob plentyn i ddatblygu i'w llawn botensial beth bynnag eu gallu a'u hanghenion

Sicrheir bod plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael pob chwarae teg o fewn yr ysgol ac ystyrir ei bod yn bwysig i adnabod anawsterau addysgol yn gynnar. Er mwyn adnabod anghenion penodol pob plentyn mae gan yr ysgol ddull o asesu manwl ac o ganlyniad threfnir rhaglen gwaith perthnasol ar eu cyfer. Mae gan bob athro gyfrifoldeb i lunio gwaith gwahaniaethol ac addasu cynlluniau gwaith pan fo angen.

Ar ddechrau pob blwyddyn bydd athrawon dosbarth a'r CADY (Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn cydweithio'n agos. Trafodir pob unigolyn yn y dosbarth, ystyrir pa ddysgwyr a fydd yn cael eu gosod ar Restr Anghenion Dysgu ac amlinellir targedau. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. Os adnabyddir plentyn ag ADY yna rhoddir Cynllun Datblygu Unigol iddynt. Hysbysir rhieni o'r broses hon. Bydd y plant hyn yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan y staff addysgu a staff nad ydynt yn athrawon. Ymgynghorir â gwasanaethau cymorth Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill i gael cyngor, arweiniad a chefnogaeth pan fo angen.

Yn flynyddol rydym yn creu Proffil Un Dudalen fel ysgol ac yn unigol. Pwrpas Proffil Un Dudalen yw i wybod yn union pa ffordd sydd orau i gefnogi eich plentyn a pha ddarpariaeth sydd angen. Rydym yn cynnal cyfarfodydd i blant sydd ar gofrestr ADY ac sydd ar gofrestr GYM (Gweithredu Ysgol a Mwy) er mwyn creu cynllun gweithredu llwyddiannus sydd yn ein helpu i dderbyn cymorth perthnasol gan arbenigwyr, asiantaethau allanol sy'n ymwneud ag anghenion y dysgwr.

Mae gan yr ysgol Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol dynodedig (CADY). Mae'r CADY yn cysylltu ag athrawon dosbarth a rhieni ac yn cynorthwyo i gynllunio ymyrraeth priodol (Cynlluniau Datblygu Unigol).

## Disgyblion ag anableddau

Mae gan yr ysgol gynllun a pholisi mynediad i'r anabl er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Fe wneir pob ymdrech i groesawu disgyblion anabl (corfforol neu feddyliol) i'r ysgol. Mae pob disgybl yn unigryw, a'n hamcan yw cyflwyno addysg addas i bob plentyn.  Anogir holl aelodau'r ysgol i barchu a chynorthwyo'i gilydd beth bynnag yw'r angen.

## Perthynas Bersonol ac Addysg Rhyw

Un o amcanion yr ysgol yw sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu ac ehangu ei sgiliau a'i wybodaeth gogyfer bywyd fel oedolyn. Addysgu'r fel rhan integredig o'r rhaglen Addysg Iechyd sy'n cynnwys emosiynau, newid corfforol, cadw'n ddiogel, ymddygiad, parch, cyfrifoldeb, perthynas a hunanhyder.

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

## Addysg Gorfforol

Bydd pob plentyn yn derbyn gwersi addysg gorfforol yn wythnosol. Disgwylir i'r plant newid ar gyfer gwersi addysg gorfforol.  Dillad addas yn cynnwys crys - t, siorts neu tracwisg a 'trainers.'

Caiff disgyblion Blwyddyn 3 - 6 wersi nofio ym mhwll nofio Rhydaman yn ddyddiol am dair wythnos y flwyddyn.  Rhaid gwisgo cap nofio ar gyfer y gwersi hyn.





## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn

## Gwersi Cerddoriaeth

Mae tri athro peripatetig yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol. Mae plant blwyddyn 3-6 yn cael y cyfle i ddysgu chwarae offeryn Pres, Llinynnol neu Chwythbrennau. Dysg yr athro Chwythbrennau recorder i Flynyddoedd 3,4,5,a 6 hefyd.

Ystyrir cerddoriaeth, yn enwedig dysgu canu offeryn, yn fantais gyffredinol i hybu addysg plant yr ysgol.  Fe geir nifer o gyfleoedd i berfformio, naill ai'n unigol neu gydag eraill mewn grwpiau gwahanol maint.  Anogir y plant i ddatblygu pob dawn a feddant, ac i gael mwynhad wrth chwarae a chanu cerddoriaeth.  Credwn hefyd fod hyn yn meithrin hunan-barch, yn ehangu profiadau, yn datblygu hyder ac yn rhoi profiadau lle y gellir rhannu llwyddiant.

## Gwaith Cartref

Mae creu partneriaeth iach rhwng y cartref a'r ysgol yn fodd i ddatblygu addysg y plentyn ymhellach.  Un agwedd bwysig o'r bartneriaeth yma yw patrwm rheolaidd o waith cartref, un y mae'r cartref yn ei ddisgwyl, ei ddilyn a'i ddeall.  Credwn fod cyfrifoldeb ar y cartref i sicrhau bod y gwaith cartref yn cael ei ddychwelyd ar yr amser cywir.  Hefyd disgwylir i bob gwaith cartref a llyfr sy'n eiddo'r ysgol dderbyn parch a gofal.  Gofynnwn yn garedig i rieni hysbysu'r ysgol trwy lythyr neu alwad ffôn, os oes problem wedi codi ynglŷn â'r gwaith y bwriedir i'r disgybl ei gyflawni yn y cartref.  Disgwylir i'r plant ddarllen yn gyson yn eu hamser eu hun er mwyn datblygu eu sgiliau darllen.  Yr un pryd disgwylir i rieni gefnogi nifer o elfennau addysgol y cwricwlwm trwy gymryd eu plant i siopa (lle cânt drafod arian a defnyddio'u tablau mathemategol), ar wibdeithiau daearyddol neu hanesyddol a diwylliannol (lle cânt ychwanegu at yr hyn a ddysgwyd eisoes yn yr ysgol).  Mae helpu i goginio a chyflawni gwaith tŷ yn helpu plant ifanc i ddatblygu cyd symudiad.  Hefyd, anogir teuluoedd i fwynhau dysgu gyda'i gilydd a chyfathrebu trwy gydweithio ar jig-sôs a chwarae gemau fydd yn hybu sgiliau cyfathrebu a rhifedd.

Gosodir Gwaith Cartref yng Nghyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) ar nos Wener.  Ym mlwyddyn 3 a 4 bydd Gwaith Cartref yn cael ei osod ar Nos Lun i'w ddychwelyd erbyn dydd Mercher ac yna eu osod ar Ddydd Gwener i'w ddychwelyd i'r dosbarth erbyn Dydd Llun. Mae blwyddyn 5 a 6 yn derbyn gwaith cartref ar nos Lun, nos Fercher a nos Wener. Rydym yn disgwyl i'r disgyblion ddod a llyfrau darllen i'r ysgol yn ddyddiol.

Gobeithir fod diddordebau'r plant mewn ambell thema yn eu hysgogi i chwilota ymhellach i'r pwnc.  Hyderwn yn fawr y cânt bob cefnogaeth o'r cartref.

## Iechyd a Diogelwch

Mae gan yr ysgol bolisi sy'n sicrhau ein bod yn darparu a chynnal amgylchiadau gwaith diogel ac iach, ynghyd â chyfarpar a systemau gwaith i'r holl ddisgyblion a'r staff (dysgu ac ategol). Hefyd, rydym yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant lle bo hynny'n bosibl neu'n angenrheidiol. Gellir cael copi o bolisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol o'r swyddfa.

Caiff asesiadau risg eu cwblhau yn rheolaidd i sicrhau fod yr adeilad, y safle a mannau ymweld yn ddiogel i'r plant, i'r staff ac i ymwelwyr.

Mae'r nyrs ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.  Bydd archwiliadau clyw a golwg yn digwydd yn ystod cyfnod y plant yn yr ysgol yn ogystal â mesuriadau taldra a phwysau.

Dylid hysbysu'r ysgol yn syth os yw'ch plentyn yn dioddef o unrhyw alergedd, neu gyflwr meddygol sydd yn debygol o fod angen gofal ychwanegol.

## Gofal ac Iechyd

Bwriad yr ysgol yw creu cymdeithas ac awyrgylch cyfeillgar a chynnes er mwyn i'r plant gael yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a sicrwydd.  Gweithreda'r athrawon fel tîm gyda'r pennaeth I sicrhau gofal cyffredinol y plant.  Ar ddechrau gyrfa ysgol pob plentyn dylai'r rhieni hysbysu'r ysgol o rif teleffon fel cyswllt brys.  Ni cheir lle cyffyrddus tawel neu ystafell orffwys yn yr ysgol, felly os caiff unrhyw blentyn ei daro'n sâl tra'i fod yn yr ysgol, cysylltir â'r rhieni er mwyn gwneud trefniadau I gyrchu'r plentyn i'w cartref neu at berthynas neu gymydog a enwebwyd.  Ni anfonir unrhyw blentyn adref o'r ysgol os na fydd yno unrhyw berson cyfrifol I warchod y plentyn.

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb I sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu :

- Y bydd gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant
- Y dylai'r ysgol wneud rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'I pholisi amddiffyn plant, a bod hyn yn golygu y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydynt yn 17redo bod y plentyn neu blant eraill mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol
- Y dylai'r ysgol geisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiduedd os yw eu plentyn yn cael ei atgyfeirio neu wedi cael ei atgyfeirio
- Y dylai'r ysgol helpu rhieni neu ofalwyr I ddeall os atgyfeirir y plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r 17lenty ac y bydd yr ysgol yn cyfrannu at unrhyw ywchwiliad amddifyn plant neu ymchwiliad yr heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn
- Y bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni/gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â chanllawiau a rheolau sydd yn ymwneud â materion hylendid wrth ddelio gyda gwaed, chwyd a phlant sydd wedi trochi eu hunain. Mae copi o'r ddogfen diweddar ar gyfnod o ddeoriad ar gael yn swyddfa'r ysgol ar wefan yr ysgol neu wrth glicio ar y linc yma – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/All%20Wales%20Infection%20Prevention%20and%20Control%20Guidance%20for%20Educational%20Settings_FINALMay%202017x.pdf

## Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant

Ar 1af Medi 2006, daeth adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i rym. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol, a chyrff llywodraethol sefydliadau addysg bellach i fod â threfniadau yn eu lle i sicrhau eu bod yn diogelu plant a bod y trefniadau hyn yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon ynghylch plentyn, byddant fel arfer yn ceisio trafod hyn â'r teulu a, lle bo hynny'n bosibl, yn gofyn am eu caniatâd i atgyfeirio'r plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ond lle na fyddai trafodaeth a chytundeb o'r fath yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o ddioddef niwed sylweddol. Bydd y cyngor hwnnw'n cael ei roi gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol mewn ymgynghoriad, lle bo'n briodol, â'r heddlu.
Dylai'r person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol gael gwybod yn iawn gan yr asiantaethau statudol pryd, sut a phwy fydd yn hysbysu'r rhieni neu'r gofalwyr bod posibilrwydd y gallai eu plentyn gael ei atgyfeirio. Dylent hefyd ofyn am gyngor ynghylch â ddylid rhoi gwybod i'r plentyn am y broses neu beidio.
Fel rhiant neu ofalwr, efallai y byddwch yn teimlo'n unig ar brydiau ond fel arfer mae rhywun ar gael i siarad. Nid yw gofalu am blant bob amser yn rhwydd, ac os ydych yn ei chael hi'n anodd ymdopi efallai y bydd angen i chi ofyn am help a chymorth i amddiffyn eich plentyn.
Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol :

- Gwnewch amser i siarad â'ch plentyn a gwrando arno/arni;
- Dewch i adnabod ffrindiau ac arferion beunyddiol eich plentyn;
- Byddwch yn sensitif i unrhyw newid yn ei ymddygiad;
- Dysgwch eich plentyn i deimlo'n hyderus i wrthod gwneud unrhyw beth os nad yw'n teimlo'n iawn;
- Byddwch yn ymwybodol o sut mae'ch plentyn yn defnyddio'r rhyngrwyd a'i ffôn symudol, fel nad yw'n rhoi ei hun mewn perygl.

Mae trefn ffurfiol i'w gael i ddelio gyda materion Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant, ac mae angen weithiau cyfeirio achosion. Mae polisi Diogelu ar gael ar ein gwefan

**Swyddog Diogelu'r Ysgol a Phlant Mewn Gofal yw Mrs Angharad Vaughan-Owen (Pennaeth) ac yn ei habsenoldeb Mrs Angharad Price.**
**Llywodraethwr Diogelu'r Ysgol a Phlant Mewn Gofal yw Mrs Shân Thomas.**

**Ymgyrch Operation Encompass**
Mae'r Ysgol yn rhan o ymgyrch Operation Encompass. Menter ar y cyd rhwng yr Awdurdod Lleol a Heddlu Dyfed-Powys yw 'Operation Encompass', sy'n golygu rhannu ag ysgolion pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi'i amlygu neu'n ymwneud a digwyddiad domestig. Mae'r wybodaeth hyn yn cael ei rhannu gyda'r person diogelu dynodedig ar gyfer yr ysgol.

**Ymgyrch Endeavour**
Mae'r ysgol yn rhan o Ymgyrch Endeavour gyda Heddlu Dyfed Powys sef proses rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chynllunio er mwyn mynd i'r afael â diffygion o ran rhannu gwybodaeth yn gynnar gydag ysgolion gyda'r bwriad o ddiogelu plant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll i'r heddlu drwy sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael gwybod am ddigwyddiad cyn gynted â phosibl.
Diben Ymgyrch Endeavour yw diogelu a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny yr adroddwyd eu bod ar goll.

## Plant Mewn Gofal

Mae gan pob plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yr hawl i gael mynediad i addysg ysgol a holl wasanaethau addysg a derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol. Bydd pob plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yn cael mynediad i'r addysg briodol ar gyfer ei allu neu'i ddawn.

Canllawiau :

- Sicrhau bod aelod o staff wedi ei ddynodi i dderbyn cyfrifoldeb penodol am ddisgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.
- Sicrhau bod yr ysgol yn monitro absenoldeb disgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, a chyflwyno adroddiad i'r awdurdod addysg.
- Sicrhau awyrgylch ac ethos gadarnhaol parthed disgyblion yng ngofal yr awdurdod, gan greu ysgol ble mae stereoteipio negyddol am y disgyblion hyn yn cael ei herio.
- Bod yn ymwybodol o sensitifrwydd gwahardd disgyblion sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol, gan gydnabod yr angen i blant felly dderbyn addysg ddi-fwlch.
- Sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol arbennig yn cael eu darparu mewn cydweithrediad a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Arbennig yn yr ysgol.

## Cymorth Cyntaf

Mae gan Ysgol Gorslas staff sydd wedi eu hyfforddi i'r safon ar gyfer ymdrin ag achosion o argyfwng yn y gweithle. Mae gan bob aelod o'r staff dystysgrif Cymorth Cyntaf a pholisi'r ysgol yw ei adnewyddu bob tair blynedd. Cysyllta'r ysgol gydag adrannau eraill pan fo angen neu pan mae plant yn sâl. Weithiau mae plant yn mynychu'r ysgol ond yn gorfod cymryd cwrs o foddion. Os yn bosibl dylid rhoi'r moddion cyn iddynt ddod i'r ysgol. Fodd bynnag, sylweddola'r athrawon nad yw hyn yn bosibl bob amser, a bod amgylchiadau'n gallu amrywio. Gofynnir i rieni gysylltu ag athrawes ddosbarth eu plentyn os oes problem ac fe geisiwn fod o gymorth - ond cofier mai trefniant unigol yw hyn, ac nid yw'n ofynnol i athrawon fod yn gyfrifol am ddarparu moddion. Rydym yn hapus i rieni alw yn yr ysgol i ddarparu moddion fel bo angen. Ni rhodd unrhyw ddyletswydd ar y staff i ddarparu moddion i unrhyw disgybl, mae'n orfodol i rieni rhoi cais ysgrifenedig iddynt wneud hynny.

## Diogelwch yn yr Ysgol

Mae gan yr ysgol un brif fynedfa sydd wedi'i chloi ar ôl 9 a.m. Mae gennym gloch drws ar gyfer ymwelwyr i'w ddefnyddio. Rhaid i'r holl ymwelwyr adrodd i'r Dderbynfa ac arwyddo ar ein system Halo. Mae ardaloedd chwarae'r disgyblion yn anghyraeddadwy i gerbydau er y gellir cael mynediad trwy gatiau wedi'u cloi ar gyfer y gwasanaethau brys ac ati os bydd angen. Rhaid i rieni sy'n dod â'u plant yn y boreau neu'n casglu eu plant o'r ysgol beidio â gyrru i faes parcio'r staff ond parcio ym maes parcio'r parc neu'r maes parcio ychwanegol ger mynedfa Heol yr Eglwys.

Os bydd unrhyw amheuon ynglŷn â diogelwch yn codi mae'n bwysig dweud wrth aelod o staff ar unwaith. Fe wnaiff yr ysgol pob ymdrech i'w datrys er mwyn diogelwch ei disgyblion

## Ymweliadau Addysgiadol

Mae Plant yn mwynhau ymweld â mannau gwahanol ac maent yn dysgu llawer o brofiadau personol.  Trefnir nifer o ymweliadau addysgiadol ynghlwm â'r gwaith a wneir yn y themâu. Gwneir pob ymdrech i roi cyfleoedd na fyddai'r plant yn blasu yn eu bywydau arferol.  Gwneir pob ymdrech i gadw'r gost mor isel ag sy'n bosibl.  Yr ydym wedi ymweld â llawer o fannau diddorol sy'n rhoi cyfleoedd dysgu gwerthfawr i'r plant e.e.
Fferm Ffoli
Amgueddfa Werin San Ffagan
Gorsaf drên Stem Gwili
Castell Henllys
Pentre Sali Mali
Amgueddfa 1940 au ym Mae Abertawe
Gerddi Botaneg
Llyn Llech Owain
Parc Treftadaeth Rhondda
Techniquest bae Caerdydd
Croesawir ymweliadau o gwmnïau theatr i'r ysgol.
Hysbysir y rhieni ymlaen llaw ynglŷn â manylion a chost yr ymweliad.  Rhoddir caniatâd gan y rhieni a gofynnir iddynt gyfrannu'n wirfoddol tuag at gwrdd â chost cludiant, pris mynediad ac ati.

Bob blwyddyn fe fydd yna gyfle i blant blwyddyn 5 a 6 ymweld â Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog am dri diwrnod, i gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus. Yn yr un modd rhoddir gwahoddiad bob blwyddyn i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ymweld â Chanolfan Awyr Agored Pentywyn am dri diwrnod. Bydd y plant o dan ofal athrawon yr ysgol ar yr ymweliadau yma.

Fe greda'r Corff Llywodraethol a staff yr ysgol yn gryf mewn hybu cysylltiadau agos gyda'r cymunedau sydd yn rhan o ddalgylch yr ysgol, ac mae grwpiau o ddisgyblion yr ysgol yn cyfrannu'n aml tuag at achlysuron arbennig yn y pentref a'r dalgylch.  Fe welir hyn yn gymorth i fagu hunan hyder yn y plant eu hunain hefyd, a gwerthfawroga'r athrawon gefnogaeth y rhieni ar yr adegau hyn.

## Chwaraeon

Mae'r ysgol yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn lle y bydd plant yn cynrychioli'r ysgol.  Mae'r rhain yn cynnwys cystadlaethau'r Urdd, Gymnasteg ac Ymarfer Corff, Gemau Rygbi, Pêl Droed, Gymnasteg, Rhedeg Traws Gwlad, Mabolgampau Ysgol a Rhyn-Ysgolion ynghyd â Gala Nofio.  Yn wir, un o gryfderau ysgol o'r faint hon yw bod pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan.

Mae unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan yn cynrychioli'r ysgol a chydnabyddir hyn fel braint sy'n gyfartal â chyflawniad academaidd ac artistig.  Mae hefyd yn meithrin ysbryd cyd-dynnu ac yn datblygu sgiliau.  Rydym yn anelu at roi cyfle i blant o bob gallu, gymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol.

Dathlwn gyflawniadau plant yn ystod ein gwasanaethau ac fe ddathlwn lwyddiant tu allan i'r ysgol hefyd.  Fe fynycha nifer o'n disgyblion glybiau Pêl Droed, Rygbi, Pêl Rwyd a Chriced lleol ac rydym yn ymfalchïo yn eu llwyddiant.
Mae gennym bedwar Lysgenhadwr Efydd Campau'r Ddraig yn yr ysgol.

## Ymddygiad Positif

Rydym yn dathlu holl lwyddiannau ein disgyblion.  Ein nôd yw sicrhau fod pob disgybl yn cwrdd â'i llawn / â'i lawn potensial.  Rydym yn cyflwyno gweithgareddau SEAL yn yr ysgol. (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu)

Nôd SEAL yw i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol o:

- ***Hunan ymwybyddiaeth***
- ***Rheoli eu teimladau***
- ***Gymhelliant***

- ***Empathi***
- ***Sgiliau cymdeithasol***

Mae'r sgiliau personol a chymdeithasol hyn yn hybu dysgu ac iechyd emosiynol ynghyd â cynnig nifer o fanteision eraill i ddisgyblion, teuluoedd ac ysgolion.

**Dewch i Ddathlu - Gwasanaeth Ddydd Gwener**

Ar Ddydd Gwener rydym yn annog ein disgyblion i arddangos tystysgrifau, gwobrau a rhannu straeon am lwyddiannau gyda gweddill yr ysgol.

**Disgyblaeth**

Mae ymddygiad da yn hanfodol i ddysgu effeithiol. Dylai plant ymddwyn yn gwrtais bob amser, a pharchu eraill a'u heiddo - disgwylir hyn gan y gymuned. Er hynny, os bydd yna broblemau yn codi gwneir pob ymdrech i ymresymu gyda'r plentyn gan geisio gwneud iddo ddeall pam fod rhai ffurf o ymddygiad yn annerbyniol.

Pan fydd angen gwneud hynny, caiff y plentyn ei ddisgyblu, a gweinyddir hyn mewn modd rhesymol sy'n debyg i'r hyn a ddisgwylir gan riant cydwybodol. Fel arfer colli cyfle a braint bersonol fydd y gosb. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw i feithrin hunan ddisgyblaeth. Anogir y plant i fod yn rhan o'r broses o greu rheolau dosbarth ar ddechrau bob blwyddyn ysgol.

Os bydd plentyn yn parhau i gamymddwyn yna cysylltir â'i rieni a gwahoddir hwy i'r ysgol i drafod problemau ymddygiad y plentyn. Os gwelir plentyn yn camymddwyn mewn modd a fydd yn peryglu ei hun neu eraill, mae hawl gan y pennaeth, mewn amgylchiadau eithriadol, i wahardd y plentyn o'r ysgol. Hysbysir y rhieni, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Leol am benderfyniad o'r math.

Fel Ysgol rydym wedi ethol Bydis a Chyngor Lles i'n helpu gyda'r agweddau yma.

**Gweithgareddau Allgyrsiol**

**Cyngor Ysgol – Gloynnod y Gors**

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn gynrychiolwyr o bob blwyddyn ysgol. Maent yn cwrdd i drafod pethau sydd wedi codi, i drefnu i godi arian i brynu adnoddau (gêmau, adnoddau amser chwarae a.y.b.) Mae gennym bolisi a chofnodion y Cyngor Ysgol yn cael eu harddangos ar fwrdd y Cyngor Ysgol.

**Ysgol Eco**

Rydym yn awyddus i ddatblygu dealltwriaeth y plant o'n hamgylchfyd. Mae ein Cynllun Eco yn brif gerbyd i gyflawni hyn.
Rydym wedi ennill "y Faner Werdd i Ysgolion Eco," Mae gennym dy wydr Eco a gardd ysgol lle mae'r disgyblion yn plannu llysiau a blodau ac hefyd gwelyau blodau a llysiau wrth y ty gwydr. Mae'r cynnyrch yn cael ei werthu i'r gymuned leol aer mwyn datblygu sgiliau entrepreneur y disgyblion.

**Ysgol Iach**

Mae'r ysgol yn rhan o raglen 'Ysgolion Iach'. Mae gan yr ysgol bump deilen werdd hyd yn hyn ac yr ydym yn parhau gyda'r amcanion. Mae'r rhglen yn chwearae rhan bwysig ym mywyd bod dydd yr ysgol. Mae'r plant yn cael potel ddwr eu hunain pan maent yn dechrau'r ysgol ac maent yn cael eu hannog i yfed digon o ddwr a bwyta pryd o fwyd cytbwys.
Mae siop ffrwythau yn yr ysgol ble mae'r plant yn gallu prynu byrbryd amser chwarae.
Rydym yn trafod materion iechyd yn rheolaidd fel rhan o waith ysgol y disgyblion.

**Gweithgareddau Allgyrsiol**

| | |
|---|---|
| Nos Lun | -Clwb Heini |
| Nos Fawrth | -Clwb Heini a chlwb garddio |
| Nos Fercher | -Clwb Heini a Chynghorau'r ysgol |

| | |
|---|---|
| Nos Iau | -Clwb Heini clybiau chwaraeon Blwyddyn 3-6<br>Côr yr ysgol (bl 3 – 6)<br>Gwyddoniaeth Gwyllt- Blwyddyn 1-6 |
| Nos Wener | -Clwb Gymnasteg DIMAX |

**Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rieni ac Athrawon cefnogol a gweithgar iawn. Cynhelir cyfarfodydd i drafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol ac i drefnu'r nosweithiau cymdeithasol fel bo pawb yn dod i adnabod ei gilydd ac i godi arian i hybu'r ddarpariaeth addysgiadol yn yr ysgol. Estynna'r C.Rh.A. groeso cynnes i bob rhiant newydd.

Enghreifftiau o weithgareddau diweddar : Disgos, Ffair Nadolig, Noson Mabolgampau,noson Gyri, helfa drysor a.y.b. O bryd i'w gilydd rydym yn gofyn am farn rhieni ac fe fanteisir ar gyfarfodydd y C.Rh.A. i drafod materion. Mae yna gysylltiad agos iawn rhwng yr Ysgol a rhieni ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad parod.

**Asesu ac Adrodd yn ôl**

*Monitro Cynnydd y Plant ac Adrodd yn ôl i Rieni*

Gweithredir polisi o asesu parhaol yn ogystal ag asesu ffurfiol yn yr ysgol hon. Cedwir proffil o waith pob plentyn mewn ffeil unigol sy'n cynnwys enghreifftiau o waith a sylwadau ar gynnydd. Gellir archwilio llyfrau gwaith y plant os dymunir.

Cynhelir nosweithiau penodol i rieni i ddod i mewn i'r ysgol i drafod cynnydd gyda'r athrawon. Fe hysbysir rhieni trwy lythyr o ddyddiadau'r cyfarfodydd. Cynhelir noson i osod targedau yn y tymor cyntaf ac i ddilyn cyfarfodydd cynnydd yn ystod tymor y Gwanwyn a Haf i drafod cynnydd y plant. Serch hynny, mae croeso i rieni ddod i'r ysgol i drafod cynnydd eu plentyn ar unrhyw adeg ychwanegol os bydd angen. Darparwyd adroddiad ysgrifenedig yn tymor yr Haf gyda manylion safonau a champau'r plant dros y flwyddyn ysgol.

Cynhelir Asesiadau Cenedlaethol bob blwyddyn yn nhymor yr hydref a'r haf. Mae'n bwysig bod disgyblion Blynyddoedd 2, 3,4,5, a 6 yn bresennol yn yr ysgol. Danfonwyd canlyniadau y profion hyn i rieni.

**Cwynion**

Rydym yn gwneud ein gorau glas bob amser i roi'r addysg orau bosib i'm plant ac i ofalu am eu hiechyd a diogelwch ynghyd a'u lles. Mae pob aelod o staff; addysgu a chynorthwyol wedi ymrwymo i hyn.

O bryd i'w gilydd mae'n bosibl nad ydym wedi cwrdd â'ch disgwyliadau. Os felly gofynwn i chwi ddweud wrthym ar unwaith. Yn gyntaf siaradwch gyda'r athrawes neu/ â'r Pennaeth. Gwerthfawrogir trefnu amser arbennig gyda'r Pennaeth am fater dwys o'r fath yma, gan fod ganddi gyfrifoldeb dysgu llawn amser.

Fe wnawn ni ein gorau i ddelio gydag unrhyw broblem rhesymol sy'n dod i'n golwg.

Os nad ydych yn hapus, fe allwch godi'r mater yn ffurfiol gyda Cadeirydd y Llywodraethwyr. Mae'r camau ar gyfer gwneud hyn ar gael o'r ysgol. (Polisi Cwynion)
Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddfa Addysg ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin, a gofyn am Ms Tanja Neumayer-James 01267 246448 (Trefn Cwynion).

**Polisiau yr Ysgol a'r Swyddfa Addysg Leol**

Mae rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn seiliedig ar y polisiau yma. Mae croeso i rieni weld copiau o'r polisiau yma ar wefan yr ysgol neu drwy ofyn am gopi papur yn y swyddfa.

* * * *